# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gymunedol Trimsaran

Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2025

Mae’r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae arweinwyr cydwybodol yn sefydlu ethos a diwylliant cadarnhaol i'r ysgol, sy'n canolbwyntio ar wella deilliannau disgyblion yn bwrpasol. Mae'r weledigaeth synhwyrol hon, sy'n cefnogi arferion gwella'r ysgol, yn cyfrannu at ymddygiad da a pharodrwydd i ddysgu ymhlith disgyblion. Mae gwaith arweinwyr i gryfhau systemau gwella'r ysgol, trwy werthusiadau rheolaidd a manwl, yn arwain at brosesau effeithiol i ddatblygu'r ysgol ymhellach.

Mae arweinwyr yn adolygu perfformiad staff yn ddiwyd ac mae cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cael effaith lwyddiannus ar les a dysgu disgyblion. Mae llywodraethwyr yn herio a chefnogi arweinwyr yn ddoeth, ac yn canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu trwy gylch monitro ystyrlon. Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd dysgu cynhwysol a diddorol, sy'n cynnwys adnoddau cyfoethog ymhob agwedd o'r ddarpariaeth, er mwyn cefnogi disgyblion i ymgolli yn eu dysgu.

Ar y cyfan, mae sesiynau addysgu yn symud ar gyflymdra sy'n addas i'r dysgu. Er hyn, nid yw ansawdd addysgu'r athrawon a'r her maent yn ei rhoi i ddisgyblion yn gyson ar draws yr ysgol. At ei gilydd, mae'r adborth mae athrawon yn ei ddarparu i ddisgyblion i wella'u dysgu yn briodol.

Mae athrawon yn cynllunio cwricwlwm difyr, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu holl fedrau'r disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. O ganlyniad, mae medrau rhifedd a digidol disgyblion yn datblygu'n gadarn. Mae medrau darllen disgyblion yn datblygu'n fwriadus ac maent yn siaradwyr hyderus yn Saesneg. Er hyn, nid yw eu medrau llafar Cymraeg ac ysgrifennu estynedig yn y ddwy iaith yn datblygu'n ddigon llwyddiannus.

Mae staff a disgyblion yn meithrin perthnasoedd gwaith clòs a theyrngar. Maent yn annog disgyblion i gydweithio a rhannu syniadau a theimladau yn synhwyrol, sy'n datblygu eu teyrngarwch a pharch at bobl eraill yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn datblygu medrau personol, cymdeithasol a chreadigol yn werthfawr, sy'n cefnogi eu hymwybyddiaeth a'u gwerthfawrogiad diwylliannol yn gadarn.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Darparu her i'r holl ddisgyblion trwy wella'r addysgu a rhoi adborth cyson ac effeithiol

A2 Parhau i wella agweddau disgyblion at siarad Cymraeg

A3 Gwella medrau ysgrifennu estynedig disgyblion

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/04/2025